
Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Gwelliannau Cyfnod 2

Gorffennaf 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **[cylchlythyr](https://cylchlythyr.senedd.cymru)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Gwelliannau Cyfnod 2

Gorffennaf 2025

Awdur:

Chloe Corbyn

Mae'r briff hwn yn crynhoi Cyfnod 2 taith y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) drwy'r Senedd.

Yn ystod Cyfnod 2 o'r gwaith craffu ar Fil, mae Aelodau o'r Senedd yn cyflwyno gwelliannau, gyda phwyllgor wedyn yn eu trafod ac yn pleidleisio arnynt. Dim ond aelodau (neu aelodau dirprwy) o'r pwyllgor cyfrifol a gaiff bleidleisio ar y gwelliannau. Ar ôl pleidleisio ar y gwelliant olaf, bydd y Bil yn symud i Gyfnod 3, lle caiff rhagor o welliannau eu cyflwyno. Mae'r Senedd yn trafod ac yn pleidleisio ar y gwelliannau dethol yn y Cyfarfod Llawn.



Cynnwys

1. Cyflwyniad 1

2. Gwelliannau Cyfnod 2 3

Grŵp 1: Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru: swyddogaethau a dyletswyddau 3

Grŵp 2: Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r gymuned, a'u cynnwys .. 4

Grŵp 3: Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru: codi ffioedd..... 4

Grŵp 4: Monitro tomenni cofrestredig 4

Grŵp 5: Asesu tomenni nas defnyddir 5

Grŵp 6: Cynnig i gofrestru tomen nas defnyddir 5

Grŵp 7: Datganiad polisi ar gategoreiddio..... 6

Grŵp 8: Rhestr o'r holl domenni nas defnyddir 6

Grŵp 9: Symud ymaith eiddo a'i waredu at ddiben cynnal gweithrediadau 6

Grŵp 10: Ceisiadau am apelau ac ad-dalu treuliau'r perchennog 7

Grŵp 11: Canllawiau a rheoliadau o dan y Ddeddf..... 7

Grŵp 12: Gweithrediadau a gynhelir gan yr Awdurdod: pŵer cyfarwyddo
9

Grŵp 13: Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau..... 9

Grŵp 14: Ymdrin â gweithgareddau sy'n ansefydlogi tomen nas defnyddir 9

Grŵp 15: Cynlluniau rheoli ar gyfer awgrymiadau cofrestredig..... 10

Grŵp 16: Rhannu gwybodaeth.....10

Grŵp 17: Dehongli 11

Grŵp 18: Dod i rym 11

3. Y camau nesaf.....12

1. Cyflwyniad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)** i'r Senedd ar 9 Rhagfyr 2024. Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl drwy gyflwyno "system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwyllo tomenni nas defnyddir yng Nghymru". Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (Ysgrifennydd y Cabinet) yw'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Bydd y gyfundrefn newydd yn diogelu lles pobl, cymunedau a seilwaith allweddol Cymru trwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd â swyddogaethau asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni.

Mae'r Bil yn cynnwys:

- Sefydlu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, sef Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ("yr Awdurdod"), i gyflwyno'r gyfundrefn newydd gan sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.
- Datblygu, a chynnal cofrestr genedlaethol o domenni nas defnyddir sy'n fygythiad, neu a allai fod yn fygythiad, i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd.
- Dull cenedlaethol newydd o gategoreiddio tomenni, sy'n seiliedig ar asesiad llawn o bob safle lle mae asesiad cychwynnol yn penderfynu y gallai cofrestru fod yn briodol.
- Dyletswydd i fonitro tomenni cofrestredig.
- Pwerau i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu berchnogion unrhyw dir ymgymryd â gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen er mwyn ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog.
- Pwerau i'r Awdurdod ymgymryd â gweithrediadau ar unrhyw dir i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir er mwyn ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog. Hefyd, bydd yn gallu adennill arian gan y perchnogion am gostau mewn cysylltiad â chamau neu weithrediadau a gwaith adfer sy'n rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i'r gweithrediadau hynny.
- Mae rhwystro asesiadau monitro neu weithgareddau o dan y Bil yn drosedd.
- Hefyd, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â phwerau mynediad a

phwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth a dogfennau gan gyrff penodol.

Mae'r Bil yn dilyn **ymgyngoriad Papur Gwyn ar ddiogelwch tomenni glo** yn 2022. Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei lywio gan **adroddiad a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan Gomisiwn y Cyfraith**, a adolygodd y fframwaith deddfwriaethol ar ddiogelwch tomenni glo. Roedd yr ymgynghoriad Papur Gwyn yn canolbwyntio ar domenni glo, ond roedd hefyd yn ystyried a ddylid datblygu'r gyfundrefn newydd mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyflwyno tomenni nad ydynt yn domenni glo dros amser. Er nad yw hyn yn cael sylw yn benodol yn y Bil, mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn amlinellu'r broses ar gyfer cyflwyno tomenni nad ydynt yn domenni glo.**

Yng Nghyfnod 1, bu tri o Bwyllgorau'r Senedd yn craffu ar y Bil.

- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig: **adroddiad/ymateb** Llywodraeth Cymru
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: **adroddiad/ymateb** Llywodraeth Cymru; a
- **Adroddiad** y Pwyllgor Cyllid.

2. Gwelliannau Cyfnod 2

Ystyriodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) y **98 o welliannau a gyflwynwyd** i'r Bil ar **4 Mehefin 2025**. Cytunwyd ar 18, ac roedd 16 ohonynt yn welliannau gan y Llywodraeth. Tynnwyd dau welliant yn ôl, ac ni chafodd tri eu cynnig. Ni chytunwyd ar y 75 o welliannau eraill.

Cafodd y gwelliannau eu **grwpio** er mwyn hwyluso'r ddadl - roedd 18 grŵp. Mae'r **rhestr o welliannau wedi'u didoli** yn nodi'r gwelliannau yn y drefn y cawsant eu gwaredu.

Cyflwynwyd 16 gwelliant gan Ysgrifennydd y Cabinet, 53 gan Janet Finch-Saunders AS a 29 gan Delyth Jewell AS.

Mae manylion y gwelliannau o bob grŵp, ynghyd â'u canlyniad, wedi'u nodi isod.

Grŵp 1: Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru: swyddogaethau a dyletswyddau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys naw gwelliant.

Mae gwelliant 16 y Llywodraeth, yr unig welliant yn y grŵp hwn y cytunwyd arno, yn diwygio'r geiriad sy'n ymwneud â phrif amcan yr Awdurdod. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwelliant mewn ymateb i argymhelliad tri o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Mae'n ail-lunio adran 2 o'r Bil, i gael gwared ar y cysyniad o "brif amcan" yr Awdurdod. Mae'n newid y drafftio i nodi sut y mae'n rhaid i'r Awdurdod arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn hytrach na nodi un prif amcan.

Roedd gwelliannau aflwyddiannus 74 (a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS) a 76 ac 88 (a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS) yn ymwneud â bioamrywiaeth – yn galw'n benodol am i gynllun corfforaethol/adroddiad blynyddol yr Awdurdod nodi ystyriaethau bioamrywiaeth a sut yr oedd yn rhoi sylw i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai gwelliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd gan yr un Aelod ac a fu hefyd yn aflwyddiannus, wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried effaith ei swyddogaethau ar fioamrywiaeth, natur a'r amgylchedd – ac effeithiau ar sŵn, llygredd aer a mynediad i fannau gwyrdd. Byddai Gwelliant 4 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried yr **Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** wrth arfer ei swyddogaethau.

Byddai gwelliant 32 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod hyrwyddo datblygu

sgiliau drwy hyrwyddo prentisiaethau a chyfathrebu â darparwyr addysg yng Nghymru.

Grŵp 2: Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r gymuned, a'u cynnwys

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 22 gwelliant, ac ni chytunwyd ar yr un ohonynt.

Byddai gwelliannau arfaethedig wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

- Gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar ei wefan;
- Sefydlu gwefan, a'i chadw'n gyfredol;
- Cyhoeddi cofrestriadau/hysbysiadau tomenni arfaethedig ar ei wefan, mewn papurau newydd lleol ac yng nghyffiniau'r domen; a
- Rhoi gwybod i gymunedau lleol am gynnig i wneud newid hysbysadwy.

Grŵp 3: Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru: codi ffioedd

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys tri gwelliant, ac ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

Galwodd gwelliant aflwyddiannus 33, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y ffioedd y bydd yr Awdurdod yn gallu eu codi am ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Galwodd am i'r rheoliadau nodi swm y ffi, a'r wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth y mae'r ffi yn berthnasol iddynt. Galwodd gwelliant 69, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, ar yr Awdurdod i ymgynghori ag awdurdodau datganoledig Cymru ac unrhyw bersonau eraill yr ystyria'n briodol cyn cyhoeddi'r rhestr o ffioedd.

Grŵp 4: Monitro tomenni cofrestredig

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant gan y Llywodraeth (17), a oedd yn llwyddiannus.

Mae'n nodi'r gofynion monitro penodol ar gyfer y gwahanol gategorïau o domen. Y gofynion monitro yw:

- Categori 1: Rhaid i'r Awdurdod arolygu o fewn chwe mis i'r domen gael ei rhoi ar y gofrestr, a dwywaith o fewn pob cyfnod o 12 mis wedi hynny; a
- Categori 2: Rhaid i'r Awdurdod arolygu o fewn 12 mis i'r domen gael ei rhoi ar y gofrestr, yna unwaith o fewn pob cyfnod o 12 mis wedi hynny.

Caiff yr Awdurdod hefyd gynnal unrhyw weithgareddau monitro eraill (gan

gynnwys arolygiadau ychwanegol) ar domen categori 1, 2, 3 neu 4. Mae'r gwelliant hwn hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i newid y cyfnod y mae'n rhaid cynnal arolygiadau ynddo, a nifer yr arolygiadau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu cynnal.

Grŵp 5: Asesu tomenni nas defnyddir

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys wyth gwelliant, pump ohonynt yn llwyddiannus, un a oedd yn aflwyddiannus, a dau na chawsant eu cynnig.

Mae gwelliannau llwyddiannus 18, 19, 20 a 21 y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad o bob asesiad rhagarweiniol a llawn, a galluogi'r rhain i gael eu cyhoeddi ar ffurf wedi'i golygu os oes angen. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwelliannau hyn wedi'u cyflwyno mewn ymateb i argymhelliad 17 o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Mae gwelliant llwyddiannus 37, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn golygu na fydd angen i hysbysiad o fwriad i gynnal asesiad llawn gynnwys enw'r person a fydd yn cynnal yr asesiad mwyach.

Byddai gwelliant aflwyddiannus 36, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, wedi ei gwneud yn ofynnol i bob asesiad rhagarweiniol gynnwys ymweliad safle i gynnal arolygiad o'r domen nas defnyddir. Mynnodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai hyn wedi gwneud y Bil yn anfforddiadwy ac yn anymarferol.

Ni chafodd gwelliannau 77 a 78 eu cynnig.

Grŵp 6: Cynnig i gofrestru tomen nas defnyddir

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant, 80, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS – a oedd yn llwyddiannus.

Mewn perthynas â chynnig i gofrestru tomen, nododd y Bil (fel yng Nghyfnod 1) “Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (3)(e) i newid y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau”. Mae gwelliant llwyddiannus 80 yn ehangu hyn i nodi na ddylai'r cyfnod diwygiedig fod yn llai na 14 diwrnod.

Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith bod pwynt tebyg yn codi mewn perthynas ag adrannau 22(4) a 29(3), ac felly byddai'n cyflwyno gwelliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 3 i wneud y newidiadau cyfatebol i'r ddwy adran hynny.

Grŵp 7: Datganiad polisi ar gategoreiddio

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant gan y Llywodraeth, a oedd yn llwyddiannus.

Mae gwelliant 22 yn nodi, wrth gyhoeddi (neu adolygu) ei bolisi ar gategoreiddio, fod rhaid i'r Awdurdod ymgynghori â'r personau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwelliant mewn ymateb i argymhelliad 20 o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Grŵp 8: Rhestr o'r holl domenni nas defnyddir

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau welliant. Roedd gwelliant y Llywodraeth yn llwyddiannus, ac roedd y gwelliant a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders yn aflwyddiannus.

Mae gwelliant llwyddiannus 23 gan y Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod i lunio a chynnal rhestr electronig o'r holl domenni nas defnyddir y mae asesiad rhagarweiniol wedi'i gynnal arnynt. Roedd y gwelliant hwn mewn ymateb i argymhelliad 10 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Roedd gwelliant aflwyddiannus 89, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn galw ar yr Awdurdod i nodi a llunio rhestr o'r holl domenni nas defnyddir erbyn 1 Ionawr 2030.

Grŵp 9: Symud ymaith eiddo a'i waredu at ddiben cynnal gweithrediadau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys chwe gwelliant nad oeddent gan y Llywodraeth, ac roedd pob un ohonynt yn aflwyddiannus.

Roeddent yn canolbwyntio ar lo y gellir ei echdynnu yn ystod gweithrediadau i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni.

Roedd gwelliannau 44, 45, 62 a 63, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn galw am gyfeirio at werthu glo mewn perthynas â gwaredu eiddo, ac am gyflawni gwerth marchnad yr eiddo.

Roedd gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, yn galw am wahardd unrhyw lo (a echdynnwyd yn ystod gweithrediadau) rhag cael ei werthu at

ddibenion llosgi.

Mewn ymateb i'r drafodaeth ynglŷn â'r gwelliannau hyn, ceisiodd Ysgrifennydd y Cabinet roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn erbyn echdynnu glo. Honnodd fod y polisi glo presennol eisoes yn darparu'r amddiffyniad yr oedd yr Aelodau yn ei geisio, yn enwedig pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcanion Polisi Cynllunio Cymru. Dywedodd, pe bai angen echdynnu glo yn ystod gweithrediadau, y byddai hynny'n ddarostyngedig i bolisiau glo a chynllunio Llywodraeth Cymru yn awtomatig. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

I have taken on board the continuing concerns being expressed by Members, and I am keen to provide some additional assurance. So, I therefore ask my officials to take forward work immediately to amend the Town and Country Planning (Notification) (Coal and Petroleum) (Wales) Direction 2018 to make it absolutely explicit that the definition of 'coal development' includes operations connected with disused coal tips. We think it's clear, but, in case it isn't clear, we will make it explicit. So, work has already started on this update, and more information will be developed as we develop the update, and I'm very happy that we share ongoing work and progress on that with the committee.

Grŵp 10: Ceisiadau am apelau ac ad-dalu treuliau'r perchennog

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 14 gwelliant nad oeddent gan y Llywodraeth - roedd 13 ohonynt yn aflwyddiannus ac un wedi'i dynnu'n ôl.

Roedd gwelliant 49, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn galw am i gais a wnaed gan berchennog am gymorth ariannol ar gyfer gweithrediadau sy'n ofynnol gan hysbysiad, gynnwys tystiolaeth o'i anallu i dalu.

Roedd gwelliannau 50 i 57, 59 i 61, a 70, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, yn galw am i'r Bil enwi'r person a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar apelau fel Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW).

Roedd gwelliant 98 a dynnwyd yn ôl, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, wedi awgrymu y dylid ymestyn yr amserlen ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiad o 21 i 90 diwrnod.

Grŵp 11: Canllawiau a rheoliadau o dan y Ddeddf

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys wyth gwelliant - pump ohonynt yn llwyddiannus, gyda thri yn methu.

Mae gwelliant llwyddiannus 25 gan y Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi arweiniad i'r Awdurdod ar y canlynol:

- pŵer yr Awdurdod i newid ffioedd (adran 3(4));
- dyletswydd yr Awdurdod i fonitro tomenni cofrestredig (adran 10);
- asesiadau rhagarweiniol a llawn o domenni gan yr Awdurdod (Pennod 2 o Ran 2);
- iawndal am ddifrod ac aflonyddwch a achosir gan weithgarwch monitro neu asesu (adran 31);
- taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau (Pennod 3 o Ran 3); a
- chynlluniau rheoli.

Mae hefyd yn amlinellu y gall Gweinidogion Cymru roi arweiniad i'r Awdurdod mewn perthynas ag arfer unrhyw un o'i swyddogaethau eraill, a rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r cyfryw ganllawiau.

Mae gwelliant 26 y Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi arweiniad hefyd i berson a benodwyd i benderfynu ar 1) cais i amrywio neu ganslo hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog gyflawni gweithrediadau neu 2) cais i ad-dalu gwariant y perchennog pan gaiff hysbysiad i gynnal gweithrediadau ei ganslo.

Mae gwelliannau 27, 28 a 29 y Llywodraeth yn ymwneud â rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Maent yn ychwanegu at y rhestr o reoliadau ar gyfer arolygu tomenni categori 1 a 2; y cyfnod gofynnol ar gyfer gwneud sylwadau i'r Awdurdod; newidiadau i nifer aelodau'r Awdurdod; a newidiadau i'r cyfnod y mae ei gynllun corfforaethol yn ymwneud ag ef. Mae gwelliant 27 yn datgan bod rheoliadau a wneir o dan adran 10 (y ddyletswydd i fonitro tomenni nas defnyddir) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwelliannau hyn mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynglŷn â'r angen i ofynion penodol gael eu gosod ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu canllawiau i'r Awdurdod mewn rhai meysydd a'r rhai a benodwyd i benderfynu ar apelau ar ran Gweinidogion Cymru.

Roedd gwelliannau aflwyddiannus 58 a 68, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn galw am ychwanegu adran newydd ar apelau, gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y broses apelio (o dan adrannau 36 a 52).

Roedd gwelliant aflwyddiannus 72, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, yn galw ar i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch yr amgylchiadau a allai fod yn ffigythiad i les pobl (o dan adran 82).

Grŵp 12: Gweithrediadau a gynhelir gan yr Awdurdod: pŵer cyfarwyddo

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant aflwyddiannus (67), a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS.

Byddai'r gwelliant wedi ychwanegu adran newydd at y Bil, ynghylch pryd y byddai angen cynnal gweithrediadau ar unwaith. Byddai wedi rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau o dan amgylchiadau o'r fath. Ar ben hynny, byddai wedi golygu, pan fo gweithrediadau o'r fath yn cael eu cyflawni, na fyddai'r Awdurdod yn atebol am dorri cyfraith cynllunio neu gyfraith amgylcheddol a ddigwyddodd o ganlyniad uniongyrchol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

Grŵp 13: Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys tri gwelliant, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS – roedd pob un ohonynt yn aflwyddiannus.

Roedd gwelliannau 7, 8 a 9 yn ymwneud â dileu'r cyfeiriad at 12 mlynedd wrth ystyried pwy a fyddai'n atebol am weithrediadau ar dir i ddelio ag ansefydlogrwydd tomen. Roedd y gwelliannau yn cynnig ymestyn y ffenestr atebolrwydd yn ôl i'r flwyddyn 1800, gyda'r Aelod yn dweud y byddai hyn yn:

... ensure that all those parties who contributed to the present state of the coal tips are held accountable, indeed, including those who placed the coal tips there in the first place. It was the National Coal Board, and hence the UK Government as its former owner, that created these coal tips.

Grŵp 14: Ymdrin â gweithgareddau sy'n ansefydlogi tomen nas defnyddir

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys chwe gwelliant nad ydynt gan y Llywodraeth, ac roedd pob un ohonynt yn aflwyddiannus.

Roedd gwelliannau 92, 93, 96 a 97, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn galw am ychwanegu adran newydd at y Bil sy'n creu'r drosedd o ansefydlogi tomen nas defnyddir, ac yn rhoi'r pŵer i gyflwyno hysbysiad stop ar berson sy'n cyflawni'r

drosedd.

Roedd gwelliannau 86 ac 87, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, yn galw am fewnosod adran newydd sy'n ymwneud â sancsiynau sifil.

Grŵp 15: Cynlluniau rheoli ar gyfer awgrymiadau cofrestredig

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau welliant gan y Llywodraeth, ac roedd y ddau ohonynt yn llwyddiannus.

Mae gwelliant 24 yn ychwanegu adran newydd at y Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chynnal cynllun rheoli ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr sy'n domen categori 1 neu 2. Mae'n nodi bod rhaid paratoi'r cynllun rheoli cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r domen gael ei chofnodi ar y gofrestr. Gall yr Awdurdod hefyd baratoi a chynnal cynllun rheoli ar gyfer tomenni categori 3 a 4. Mae'r adran newydd yn nodi'r wybodaeth i'w chynnwys mewn cynllun rheoli:

- Sut mae'r Awdurdod yn bwriadu arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r domen (gan gynnwys gwybodaeth neu gyngor y mae'n bwriadu eu rhoi i berchnogion neu feddianwyr y tir);
- Gwybodaeth y mae'r Awdurdod yn ystyried a allai fod yn berthnasol mewn argyfwng sy'n ymwneud â'r domen;
- Gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus eraill mewn argyfwng o'r fath, a sut y bydd yr Awdurdod yn cydweithredu â nhw; ac
- Unrhyw wybodaeth arall y mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwelliannau hyn yn adlewyrchu argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau y dylai fod darpariaeth benodol ar wyneb y Bil mewn perthynas â chynlluniau rheoli.

Mae gwelliant 31 yn ychwanegu cynlluniau rheoli at y rhestr o dermau a ddefnyddir yn y Bil.

Grŵp 16: Rhannu gwybodaeth

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar gwelliant nad ydynt gan y Llywodraeth, ac roedd pob un ohonynt yn aflwyddiannus.

Roedd gwelliannau 10 ac 11, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, yn galw am i'r Ysgrifennydd Gwladol ac Ystad y Goron fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau

rhannu gwybodaeth y Bil.

Byddai gwelliant 94, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, wedi gosod dyletswydd ar berchnogion tir i hysbysu'r Awdurdod os ydynt yn dod yn ymwybodol o fygythiad i sefydlogrwydd tomen neu dystiolaeth o ansefydlogrwydd (er budd osgoi neu leihau bygythiad i les pobl).

Roedd gwelliant 95, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, yn galw am ychwanegu adran newydd at y Bil sy'n ei gwneud yn drosedd pe bai person yn methu â darparu gwybodaeth, heb esgus rhesymol.

Grŵp 17: Dehongli

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pum gwelliant, un ohonynt yn llwyddiannus, gyda'r pedwar arall yn methu.

Mae gwelliant llwyddiannus 30 gan y Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i ddiwygio ystyr "tomen" a "tomen nas defnyddir" (o dan adran 81). Roedd y gwelliant hwn mewn ymateb i argymhelliad 29 y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Roedd gwelliannau 12, 13, 14 a 15, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, yn ceisio diwygio ystyr "bygythiad i les pobl" o dan adran 82 o'r Bil i gynnwys:

- Bygythiad difrifol gan lifogydd;
- Halogiad difrifol o ddŵr;
- Niwed amgylcheddol difrifol; a
- Bygythiad difrifol gan dân.

Grŵp 18: Dod i rym

Mae'r ddeddfwriaeth i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill 2027. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau welliant nad ydynt gan y Llywodraeth (73 ac 1) - cafodd un ohonynt ei dynnu'n ôl ac ni chafodd y llall ei gynnig. Ceisiodd y ddau newid dyddiad dod i rym y ddeddfwriaeth i 1 Ebrill 2026.

3. Y camau nesaf

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2 ar 4 Mehefin, dechreuodd y Bil ar Gyfnod 3 o'r broses ddeddfwriaethol ar 5 Mehefin.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd ar dudalen y Bil ar wefan y Pwyllgor. Mae trafodion Cyfnod 3 wedi'u trefnu i gael eu cynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf.